# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Dydd Iau, 3 Tachwedd 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D.M. Cundy (Chair)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen (In place of H.I. Jones), J.M. Charles, J.K. Howell, G.B. Thomas, S.L. Davies, T. Devichand, W.R.A. Davies, J.D. James (In place of S. Matthews), D. Tomos and E.G. Thomas

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Staines, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd
I. Jones, Pennaeth Hamdden
H. Morgan, Rhelowr Datblygu Economaidd
L. Quelch, Y Pennaeth Cynllunio
J. Edwards, Y Pennaeth Cynllunio Integredig
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
D. Eldred, Cyfrifydd Grwp
J. Willis, Rheolwr Gwasanaethau Tai (Cyngor a Dewisiadau)
J. Owen, Rheolwr y Rhaglen TIC
A. Maynard, Rheolwr Cymunedol a Diogelu
R. Davies, Swyddog Rheoli Datblygu (De)
S Willis, Swyddog Rheoli Datblygu
R Parkinson, Arweinydd Tim - Cyngor ynghylch Tai
A Lodwig, Arweinydd Tim
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin - 10.00 am - 1.05 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr H.I. Jones, S. Matthews a H.B. Shepardson ynghyd â'r Cynghorydd L.M. Stephens – Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau Dynol, Effeithlonrwydd a Chydweithio.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd D.O. Thomas i'w gyfarfod cyntaf ers cael ei benodi'n aelod o'r Pwyllgor yn ddiweddar.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at salwch diweddar y Cynghorydd H.I. Jones ac estynnodd ei ddymuniadau am wellhad buan.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol.

## 3. DATGAN CHWIPIAID PLAID SYDD WEDI EU GWAHARDD

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

## 4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

## 5. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Rhoddwyd rhestr i'r Pwyllgor o'r eitemau a fyddai'n cael eu hystyried yn y cyfarfod oedd i'w gynnal ar 5 Rhagfyr 2016.

## 6. RHAGLEN TRAWSNEWID I WNEUD CYNNYDD (TIC) - Y NEWYDDION DIWEDDARAF

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y rhaglen 'Trawsnewid i Wneud Cynnydd' (TIC) ac fe nododd fod y fenter, a sefydlwyd yn 2012 mewn ymateb i'r heriau ariannol sylweddol yr oedd yr Awdurdod Lleol yn eu hwynebu, wedi bod o gymorth i adnabod, neu'n helpu i gyflawni, arbedion effeithlonrwydd gwerth dros £7m. Cafodd y Pwyllgor drosolwg hefyd o adolygiad o weithrediad y System Rheoli Datblygu a gynhaliwyd gan yr Adain Gynllunio.

Trafodwyd y materion canlynol wrth ystyried y diweddariad:

- Cyfeiriwyd at yr arbedion gwerth £7m a gyflawnwyd ers 2012, a gofynnwyd am ddadansoddiad bras ohonynt a gofynnwyd hefyd a oedd y mwyafrif o'r arbedion a gyflawnwyd yn gysylltiedig â gostyngiadau staff a allai ddwyn goblygiadau o ran cadw arbenigedd o fewn adrannau.

  Rhoddodd Rheolwr y Rhaglen TIC wybod bod tua 60% o'r arbedion yn rhai nad oeddent yn gysylltiedig â staff ac yn cwmpasu amrywiaeth o swyddogaethau'r Cyngor a oedd yn cynnwys arbedion o £165k (ers 2013) ar bost allanol trwy ostwng nifer y llythyrau a anfonir yn y post dosbarth cyntaf, £45k trwy ostwng nifer y peiriannau ffrancio o 17 i 5, dros £400k trwy ostwng costau argraffu a £2m ar gostau cerbydau. O ran gostyngiadau staff, roedd y rheiny'n ymwneud â staff a oedd wedi mynegi dewis i adael eu cyflogaeth gyda'r awdurdod dan ei gynllun diswyddo, gydag achosion busnes manwl yn cael eu cyflwyno a'u cymeradwyo cyn y diswyddiadau hynny. Mewn rhai achosion, roedd niferoedd y staff wedi cynyddu er mwyn creu arbedion/incwm ychwanegol neu adfer mwy o ddyledion.

  O ran y Gwasanaeth Cynllunio'n benodol, roedd arbedion gwerth £65k wedi cael eu cyflawni o ganlyniad i ymadawiadau tri aelod o staff dan y cynllun diswyddo yn dilyn cyflwyno arferion gweithio newydd.

- Roedd un maes yr oedd aelodau etholedig yn cael cwynion yn aml yn ei gylch yn ymwneud â'r amser y mae'n ei gymryd i brosesu ceisiadau cynllunio. Gofynnwyd sut yr oedd y Gwasanaeth Cynllunio wedi mynd i'r afael â'r mater hwn.

  Rhoddodd y Rheolwr Rheoli Datblygu wybod bod y drefn ar gyfer prosesu ceisiadau'n arfer bod yn seiliedig ar dargedau gyda'r mwyafrif yn cael eu prosesu o fewn 52-55 diwrnod. Roedd y gwasanaeth bellach wedi cyflwyno system a oedd yn golygu bod ceisiadau'n cael eu rhagddilysu cyn eu cofrestru, gan olygu bod yr amser prosesu ar gyfartaledd wedi gostwng i 28-33 diwrnod. Fodd bynnag, roedd deddfwriaeth, sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal cyfnod ymgynghori o 21 diwrnod mewn perthynas â cheisiadau cynllunio, yn cyfyngu ar y cyfleoedd i leihau'r ffrâm amser honno ymhellach.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch blaenoriaethu prosiectau i'w cynnwys o fewn y Rhaglen TIC, hysbyswyd y pwyllgor eu bod yn cael eu cyflwyno trwy nifer o ffynonellau e.e. ceisiadau gan adrannau gwasanaethau, y Tîm Rheoli Corfforaethol a Seminarau Aelodau. Roedd y ceisiadau hynny'n cael eu rhoi gerbron Bwrdd y Rhaglen TIC i gael eu hasesu ar gyfer eu cynnwys ac i benderfynu faint o flaenoriaeth fydd yn cael ei rhoi iddynt o fewn y Rhaglen.
- O ran yr arbedion gwerth £7m a oedd eisoes wedi cael eu cyflawni, cadarnhaodd Rheolwr y Rhaglen TIC fod y rhain yn cael eu defnyddio gan adrannau fel cyfraniadau tuag at yr arbedion effeithlonrwydd blynyddol yr oedd yn ofynnol iddynt eu hadnabod fel rhan o'r broses gyllidebol.

**PENDERFYNWYD derbyn y cyflwyniad.**

## 7. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2016 (CYNLLUNIO)

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr amser cyfyngedig sydd ar gael i'r Pwyllgor drafod yr holl eitemau ar yr agenda a gyflwynwyd gerbron i'w hystyried y diwrnod hwnnw, ac awgrymodd y dylai'r eitem ar yr Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad 2016 (Cynllunio) gael ei gohirio er mwyn ei hystyried rywbryd yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio'r eitem ar yr Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad 2016 (Cynllunio) er mwyn ei hystyried yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.**

## 8. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2015/16 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR GAERFYRDDIN

Cyflwynwyd Adroddiad Monitro Blynyddol 2015/16 ar Gynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin i'r Pwyllgor ei ystyried. Nodwyd fod y cynllun wedi cael ei lunio yn unol â gofynion Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2016. Roedd yr adroddiad yn cynrychioli llinell sylfaen y gallai'r adran ei defnyddio i fonitro gweithrediad y Cynllun ac adnabod unrhyw dueddiadau hirdymor a allai olygu bod angen ystyried diwygiadau posibl yn y dyfodol. Roedd yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gael fel rhan o ymgynghoriad anffurfiol hefyd, y tu allan i ofynion statudol, gan roi'r cyfle i gyflwyno safbwyntiau a fyddai, os oeddent yn briodol, yn gallu goleuo cynnwys Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol.

Codwyd y materion canlynol mewn perthynas â'r adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y gyfradd unedau manwerthu gwag o 17% yng Nghanol Tref Llanelli a gofynnwyd sut y gallai mabwysiadu Gorchymyn Datblygu Lleol (GDLl) ddylanwadu ar y gyfradd hon.

  Cadarnhaodd y Rheolwr Blaengynllunio fod yr Awdurdod wedi cydnabod y gyfradd uchel o ran unedau manwerthu gwag, a oedd wedi cael ei chamystumio i ryw raddau gan lwyddiant Canolfan Siopa Elli. Mae Tasglu wedi cael ei sefydlu i fynd i'r afael â materion parhaus yng nghanol tref Llanelli gan greu dull cydgysylltiedig o'i adfywio gan gynnwys mynd i'r afael ag unedau gwag a bywiogrwydd. Gellid mabwysiadu GDLl a'i ddefnyddio fel offeryn i ddylanwadu ar weithrediad Hawliau Datblygu a Ganiateir trwy fabwysiadu dull hyblyg er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno newid defnydd posibl ar gyfer unedau manwerthu. Gallai hynny

gynnwys newid y defnydd cynllunio ar gyfer lloriau uwch unedau manwerthu o ddefnydd storio i ddefnydd preswyl, a chaniatáu ystod eang o ddefnyddiau masnachol ar gyfer unedau ar loriau gwaelod yn hytrach na chyfyngu eu defnydd i ddefnydd manwerthu.

Hysbysodd hefyd mai un ffactor arall sy'n dylanwadu ar Ganol Tref Llanelli yw llwyddiant y ganolfan siopa ar gyrion y dref yn Nhrostre, a Pemberton, ac un o nodau'r Tasglu oedd cynorthwyo Canol y Dref i ymateb i bwysau o'r fath. Gallai cyflwyno'r GDLl gynorthwyo gyda'r broses honno trwy ganiatáu i'r newidiadau awgrymedig mewn defnydd y cyfeirir atynt uchod gael eu gwneud trwy'r broses hysbysu, yn hytrach na thrwy gyflwyno cais cynllunio ffurfiol. Yn y bôn, gellid teilwra'r GDLl er mwyn ateb gofynion penodol ardal. Fodd bynnag, byddai angen i'r defnydd ohono gael ei fonitro a'i adolygu er mwyn sicrhau bod canlyniadau a ddymunir yn cael eu cyflawni.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch darparu safleoedd ar gyfer teithwyr, cadarnhaodd y Pennaeth Cynllunio fod Llywodraeth Cymru yn gosod dyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol i asesu'r angen am safleoedd o'r fath, ac i ddarparu'r safleoedd hynny o fewn ei ardal. Roedd y CDLl wedi nodi bod angen casglu gwybodaeth bellach yn y cyswllt hwnnw.
- Yn codi o'r uchod, gofynnwyd am eglurhad o'r sefyllfa lle gallai rhywun gaffael llain o dir at ddiben darparu safle ar gyfer teithwyr. Dywedodd y Pennaeth Cynllunio y byddai angen i rywun sy'n ymgymryd â menter o'r fath ymgeisio am ganiatâd cynllunio, fel gyda phob datblygiad, i ddarparu'r safle'n barhaol.
- Cyfeiriwyd at yr effaith bosibl y gallai datblygiad yn ardaloedd awdurdodau cyfagos ei chael ar gymunedau yn Sir Gaerfyrddin sy'n ffinio â'r ardaloedd hynny. Gofynnwyd a oedd unrhyw drefniadau'n bodoli i hwyluso trafodaeth drawsffiniol ynghylch yr effaith honno.

  Cadarnhaodd y Rheolwr Blaengynllunio fod trefniadau'n bodoli i drafod materion o'r fath ac i alluogi swyddogion i wneud sylwadau ar CDLl Awdurdod Lleol cyfagos. Fodd bynnag, trefniadau ymgynghorol oedd y rhain, ac er y gallai swyddogion geisio dylanwadu ar ddatblygiad Cynllun, y priod awdurdod lleol oedd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad yn y pen draw. Fodd bynnag, pan fyddai CDLl yn cael ei archwilio, byddai angen i awdurdod cynllunio lleol ddangos i'r Arolygydd Cynllunio faint o ymgynghori trawsffiniol a fu.
- Mynegwyd barn bod y CDLl cyfredol yn cynnwys darpariaeth i orddatblygu ddigwydd mewn rhai ardaloedd ar draul ardaloedd eraill. Gofynnwyd a ellid diwygio'r cynllun i ganiatáu i fwy o ddatblygu ddigwydd mewn ardaloedd lle nad oedd llawer o ddatblygu neu lle nad oedd unrhyw ddatblygu'n digwydd.

  Hysbysodd y Rheolwr Blaengynllunio fod y CDLl wedi cael ei lunio yng ngoleuni newidiadau yn y boblogaeth ac amrywiadau yn y farchnad a'i fod wedi nodi ardaloedd twf a datblygu cynaliadwy fel cyfleoedd datblygu allweddol, a oedd yn denu buddsoddiad. Fodd bynnag, nid oedd ardaloedd eraill yn y Sir, e.e. trefi marchnad, yn denu'r un lefel o ddatblygu ac roedd yr Awdurdod yn ceisio deall a hwyluso cyfleoedd yn yr ardaloedd hynny trwy drafod telerau'n uniongyrchol gyda datblygwyr a.y.b. Hefyd, roedd gan yr Awdurdod ddaliadau tir sylweddol y gellid eu defnyddio i hybu datblygu yn y dyfodol.

- Cyfeiriwyd at benderfyniad diweddar Llywodraeth Cymru i ohirio camau i ad-drefnu Llywodraeth Leol ac i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gydweithio'n fwy. Cadarnhaodd y Rheolwr Blaengynllunio, yn amodol ar Gyfarwyddyd a oedd yn yr arfaeth gan Lywodraeth Cymru, y gallai fod yn ofynnol yn y dyfodol i'r Awdurdod gysylltu'n rhanbarthol ag awdurdodau lleol cyfagos ar faterion megis tai a datblygu economaidd. Gallai hynny fod yn arbennig o bwysig o ystyried natur wledig/drefol Sir Gaerfyrddin
- Cyfeiriwyd at gynigion datblygu yn Ward Llwynhendy, a oedd yn cynnwys adeiladu rhyw 280 eiddo, a mynegwyd pryder ynghylch gallu seilwaith yr ardal i ddarparu ar gyfer y datblygiadau hynny, yn enwedig o ran anawsterau presennol gyda llifogydd.

  Cadarnhaodd y Rheolwr Blaengynllunio ei bod yn ofynnol bod yr Awdurdod, wrth baratoi'r CDLl, yn ymgynghori ag ystod eang o ymgyngoreion statudol ac eraill ynghylch cyfleoedd datblygu arfaethedig. Roedd yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar weithrediad y CDLl yn rhoi'r cyfle i'r Awdurdod ystyried gweithrediad y CDLl a, lle y bo'n briodol, ystyried effaith datblygiadau. O ganlyniad i Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol, fe allai hyn arwain at ddiwygiadau arfaethedig i'r Cynllun pe bai'n briodol. Hefyd, roedd yr Awdurdod wrthi'n archwilio rhinweddau mabwysiadu Ardoll Seilwaith Cymunedol a fyddai, o'i mabwysiadu, yn galluogi'r Cyngor i ddefnyddio ardollau cynllunio i gyllido gwaith ar y seilwaith strategol ledled y sir na fyddai'n gallu cael ei gyllido fel arall trwy gyfraniadau dan adran 106.
- Cadarnhawyd, er na fu unrhyw ymgynghori ag aelodau lleol ynghylch paratoi'r Adroddiad Monitro Blynyddol cyfredol, fod sylwadau gan aelodau a'r gymuned ehangach yn cael eu croesawu ac y byddent yn goleuo Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol, lle y bo'n briodol.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Pennaeth Cynllunio fod y targedau a nodir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol, a oedd wedi'u pennu gan Lywodraeth Cymru, wedi'u meincnodi ac yn cynrychioli mater o ffaith. Hysbysodd y gallai'r modd yr oedd yr Awdurdod yn adweithio i'r targedau hynny ac yn symud ymlaen fod yn faes yr hoffai'r pwyllgor ei archwilio wrth iddo baratoi ar gyfer llunio'r Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf

  Wrth ystyried yr uchod, fe wnaed awgrym, sef o ystyried bod y Pwyllgor yn gynharach wedi gohirio'r eitem ar yr Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad (Cynllunio) y gallai fod yn gyfleus ei fod yn derbyn yr Adroddiad Monitro Blynyddol cyfredol, ond yn trafod y materion ynddo ymhellach pan fyddai'n ystyried yr Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**8.1 ARGYMELL WRTH Y BWRDD GWEITHREDOL / CYNGOR bod Adroddiad Monitro Blynyddol 2015/16 – Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin yn cael ei dderbyn**

**8.2 Y byddai trafodaeth bellach yn cael ei chynnal ar Adroddiad Monitro Blynyddol 2015/16 – Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin pan fydd y Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad (Cynllunio).**

## 9. ADOLYGU'R POLISI YNGHYLCH MYNEDIAD AT DAI CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd yr adroddiad ar yr adolygiad o'r Polisi ynghylch Mynediad at Dai Cymdeithasol y Cyngor i'r Pwyllgor ei ystyried yn dilyn ymgynghoriad eang a oedd wedi cynnwys grwpiau gwleidyddol y Cyngor, Partneriaid sy'n Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Shelter, Wallace, y Fforwm 50+, y rhwydwaith tenantiaid a thrwy anfon neges e-bost at ryw 6,000 o denantiaid ar Gofrestr Tai Cymdeithasol y Cyngor. Nodwyd mai'r prif newidiadau i'r polisi oedd:

- gwneud y polisi'n symlach,
- Rhoi blaenoriaeth i bobl o fewn Sir Gaerfyrddin a'r rhai oedd â chysylltiad â'r Sir;
- Gostwng nifer y bandiau cymhwysol o bedwar i ddau
- Cael gwared ar y system pwyntiau.

Codwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

- Cyfeiriwyd at fandiau A a B a'r ddarpariaeth ynddynt ar gyfer cartrefu pobl ddigartref. Mynegwyd pryder fod pobl ddigartref yn dal yn ddigartref ni waeth ym mha fand yr oeddent yn cael eu categoreiddio.

  Hysbyswyd y Pwyllgor mai'r rheswm dros gynnwys categori digartref yn y ddau fand oedd er mwyn symleiddio'r broses. Roedd Band A yn ymdrin ag ymgeiswyr a aseswyd dan Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac yr oedd dyletswydd dan Adran 75 wedi cael ei derbyn mewn perthynas â hwy. Roedd y rheiny'n cynnwys ymgeiswyr â phlant, menywod beichiog, y rhai sy'n dioddef cam-drin domestig, aelodau o'r Lluoedd Arfog a'r cyn-droseddwyr hynny nad ydynt yn cael eu cyfrif mwyach yn bobl y rhoddir blaenoriaeth iddynt ond yr ystyrir eu bod yn agored i niwed ac yn dioddef cyflyrau iechyd meddwl neu feddygol. Roedd Band B yn ymdrin ag ymgeiswyr a oedd yn ddigartref neu'n wynebu bygythiad o ddigartrefedd ond nad oeddent yn bobl y rhoddir blaenoriaeth iddynt.
- Cyfeiriwyd at gap Llywodraeth y DU o £20k ar fudd-daliadau ac at yr effaith bosibl y gallai hynny ei chael ar bobl yn dod yn ddigartref. Hysbyswyd y Pwyllgor fod swyddogion ar hyn o bryd yn gweithio ar effaith bosibl y cap trwy wasanaeth cyngor ar dai holistaidd a fyddai'n defnyddio pob modd sydd ar gael iddo i helpu a chynghori pobl y gallai'r cap effeithio arnynt. Gallai hynny gynnwys symud tenantiaid i eiddo llai, gan felly ryddhau eu cartref i gael ei ddyrannu i deulu mwy.

  Hefyd, roedd swyddogion yn Adain Refeniw a Budd-daliadau'r Cyngor yn cynnal ymarfer modelu a oedd yn ystyried faint o deuluoedd y gallai'r cap effeithio arnynt, a gallai canlyniad yr ymarfer hwnnw gael ei rannu gydag aelodau o'r Pwyllgor. Yn genedlaethol, roedd Shelter Cymru wedi amcangyfrif y gallai oddeutu 400 o deuluoedd ddod yn ddigartref o ganlyniad i gyflwyno'r cap.
- Cyfeiriwyd at bwyslais y polisi ar gartrefu pobl sy'n byw yn y sir ar hyn o bryd, neu'r rhai sy'n dymuno adleoli i'r sir a hwythau'n bobl a chanddynt gysylltiad â'r ardal. Gofynnwyd a fyddai'r polisi'n eithrio'r holl bobl eraill nad ydynt yn perthyn i'r categorïau hynny rhag ymgeisio am dai cymdeithasol gyda'r cyngor, a allai fod yn niweidiol i gynaliadwyedd economaidd.

  Hysbyswyd y Pwyllgor na fyddai'r polisi'n rhagwahardd unrhyw un rhag gwneud cais i gael ei gynnwys ar gofrestr tai cymdeithasol y Cyngor, ond y byddai ei gais yn cael ei asesu ar sail y meini prawf a nodir ynddo. Roedd

darpariaeth ar gyfer pobl sy'n ceisio symud i Gaerfyrddin ac sydd wedi sicrhau cyflogaeth yn y sir wedi'i chynnwys ym mand B gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i deuluoedd sy'n gweithio ac sydd ar incwm isel.

- Mewn ymateb i gwestiwn am ddyrannu eiddo i bobl a oedd yn achosi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol i'w cymdogion, neu a oedd â hanes o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, hysbyswyd y Pwyllgor fod gan y Cyngor drefniadau ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hynny a oedd yn cydymffurfio â chanllawiau statudol a deddfwriaeth. Roedd y polisi newydd hefyd yn cynnwys darpariaeth i ragwahardd unrhyw un â hanes o ymddygiad o'r fath rhag cael ei gynnwys ar y Gofrestr Tai Cymdeithasol.
- Cyfeiriwyd at y broses o ymgeisio am dai cymdeithasol trwy gwblhau ffurflen gais neu dros y ffôn. Gofynnwyd pa fesurau oedd yn bodoli i sicrhau bod gwybodaeth a ddarperir gan ymgeisydd yn cael ei dilysu, ac a fyddai angen darparu unrhyw ddogfennaeth ategol.

  Cadarnhawyd fod gan y Cyngor brosesau fetio cryf a chadarn i sicrhau bod ymgeiswyr am dai cymdeithasol yn cael ymchwiliad ac asesiad llawn cyn eu bod yn cael eu hailgartrefu. Byddai'n ofynnol i ymgeiswyr am dai cymdeithasol dan y categori 'angen blaenoriaethol' gael cyfweliad wyneb yn wyneb, gyda cheisiadau'n cael eu gwneud i weld eu cofnodion meddygol, os yn berthnasol. Byddai hefyd yn ofynnol cael dogfen adnabod ffotograffig a rhif yswiriant gwladol i wirio pwy yw unigolyn cyn dilysu ei gais. I bobl sy'n gwneud cais cychwynnol dros y ffôn, gellid cynnal ymweliadau â'r cartref i ddilysu gwybodaeth. Yn 2015/16, cafwyd rhyw 3,000 o geisiadau am dai, a chafodd nifer o'r ymgeiswyr a'u cyflwynodd ymweliad â'r cartref neu gyfweliad yng nghanolfannau cyswllt y Cyngor.
- Mewn ymateb i gwestiwn am fabwysiadu polisïau gosodiadau lleol, cadarnhaodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd fod y polisi newydd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer eu mabwysiadu.
- Mewn ymateb i gwestiwn am y prosesau cyfreithiol y mae'n ofynnol eu dilyn i hwyluso'r drefn o fabwysiadu'r polisi, cadarnhaodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd fod cyngor cyfreithiol wedi cael ei roi ynghylch hynny gan fargyfreithwyr allanol annibynnol, ac ymgyngoriadau wedi cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru a Phartneriaid Tai Cymdeithasol y Cyngor. Cadarnhaodd, o ran Partneriaid Tai Cymdeithasol, y byddai angen i'w Prif Weithredwyr, cyn argymell bod eu cyrff llywodraethu'n ei fabwysiadu, fod yn sicr ynghylch cyfreithlondeb y polisi.
- Cyfeiriwyd at sefyllfaoedd lle byddai ymgeisydd yn gwrthod cynnig o eiddo a gofynnwyd pa opsiynau oedd ar gael i'r ymgeisydd pe bai'n ei gael ei hun yn y sefyllfa honno.

  Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Tai fod angen i'r adran fod yn siŵr, wrth wneud cynnig o lety, bod y cynnig yn rhesymol yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd. Pe bai cynnig yn cael ei wrthod maes o law, roedd proses apelio i'w chael

**PENDERFYNWYD Y DYLID ARGYMELL WRTH Y BWRDD GWEITHREDOL/CYNGOR:**

**9.1 Bod canlyniadau'r ymarfer ymgynghori ar yr adolygiad o Bolisi'r Cyngor ynghylch Mynediad at Dai Cymdeithasol yn cael eu mabwysiadu**

9.2 **Bod y Polisi Diwygiedig Drafft ynghylch Mynediad at Dai Cymdeithasol yn cael ei gymeradwyo.**

## 10. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2016/17

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr amser cyfyngedig sydd ar gael i'r Pwyllgor drafod yr holl eitemau ar yr agenda a gyflwynwyd gerbron i'w hystyried y diwrnod hwnnw, ac awgrymodd y dylai'r eitem ar Adroddiad Monitro Cyllideb Cyfalaf a Refeniw 2016/2017 gael ei gohirio er mwyn ei hystyried rywbryd yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y byddai'r eitem ar Adroddiad Monitro Cyllideb Cyfalaf a Refeniw 2016/2017 yn cael ei gohirio er mwyn ei hystyried rywbryd yn y dyfodol.**

## 11. ADRODDIAD HANNER BLWYDDYN CWYNION A CHANMOLIAETH - 1AF O EBRILL HYD AT 30AIN O FEDI 2016

Cyflwynwyd Adroddiad Hanner Blwyddyn Cwynion a Chanmoliaeth ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill – 30 Medi 2016 i'r Pwyllgor ei ystyried a rhoddodd y Pwyllgor sylw arbennig i'r materion a oedd yn ymwneud â'i gylch gwaith, h.y. Adran 9.4 Hamdden a Thai ac Adran 9.4 Gwasanaethau Cynllunio ac Eiddo.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 12. DURATION OF MEETING

Am 1.00 p.m. tra'r oedd Cofnod 11 uchod yn cael ei ystyried, dygwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9.1 yn y Rheolau Gweithdrefn Gorfforaethol, "Hyd y Cyfarfod" a Rheol 23.1 yn y Rheolau Gweithdrefn Gorfforaethol, "Atal". Gan fod y cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo am dair awr,

**PENDERFYNWYD atal Rheolau Gweithdrefn y Cyngor i'w gwneud yn bosibl ystyried y busnes a oedd yn weddill ar yr agenda.**

## 13. DIWEDDARAF AM WEITHREDIADAU AC ATGYFEIRIADAU'R PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn nodi'r cynnydd a oedd wedi cael ei wneud o ran camau gweithredu, ceisiadau neu atgyfeiriadau a oedd yn deillio o gyfarfodydd blaenorol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 14. EGLURHAD AM BEIDIO A CHYFLWYNO ADRODDIADAU CRAFFU

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r eglurhad a ddarparwyd am beidio â chyflwyno adroddiad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad am beidio â chyflwyno adroddiad.**

## 15. LLOFNODI YN GOFNODAU CYWIR, COFNODION Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR Y 29AIN MEDI 2016

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 29 Medi 2016 fel cofnod cywir.**

________________________________ ________________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol